# Y Panel Cadeiryddion

## Cofnodion (POC(2)-07-05)

### Dyddiad y cyfarfod: 1 Tachwedd 2005
### Amser y cyfarfod: 17:45 - 19:13
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1

#### Aelodau'r Cynulliad oedd yn bresennol

| Aelod o'r Cynulliad | Pwyllgor |
|---|---|
| Yr Arglwydd Elis-Thomas AC, Llywydd (Cadeirydd) | |
| Peter Black AC | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Rosemary Butler AC | Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon |
| Janice Gregory AC | Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio |
| Chris Gwyther AC | Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth |
| Ann Jones AC | Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Alun Ffred Jones AC | Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad |
| David Melding AC | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Janet Davies AC | Archwilio |
| Sandy Mewies AC | Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Gwenda Thomas AC | Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal |

#### Swyddogion oedd yn Bresennol

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Paul Silk | Clerc y Cynulliad |
| Karin Phillips | Pennaeth y Gwasanaethau Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau |

| | |
|---|---|
| Gwen Parry | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad |
| Peter Jones | Cwnsler i Bwyllgorau'r Cynulliad |
| Adrian Green | Uwch Ysgrifennydd Preifat Seneddol, Swyddfa'r Llywydd |
| Lara Date | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

### Eitem 1: Craffu gan Bwyllgorau Busnes a Phwyllgorau Pwnc Ddeddfwriaethau dan Bwerau Fframwaith

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb wedi'u derbyn.

1.2 Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Busnes y papur oedd wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Busnes yn gynharach yn y dydd oedd yn amlinellu sut y gallai'r Pwyllgor Busnes a Phwyllgorau Pwnc gyflawni'r argymhelliad ym mharagraff 67 yr adroddiad gan y Pwyllgor Gwell Trefn Lywodraethu i Gymru.

1.3 Esboniodd Cadeirydd y Pwyllgor Busnes mai rôl y Pwyllgor Busnes fyddai rôl cyd-drefnu a monitro'n bennaf tra byddai Pwyllgorau Pwnc unigol yn gyrru'r broses o graffu Mesurau a ail-gyfeirir ac is-deddfwriaethau dilynol. Er mwyn cyflawni ei rôl yr oedd y Pwyllgor Busnes wedi cytuno i ystyried diweddariad gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar hynt Mesurau perthnasol trwy'r Senedd a'r ystyriaeth arnynt gan Bwyllgorau'r Cynulliad bob 4 wythnos. Yr oedd y Pwyllgor hefyd wedi gofyn fod Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cynnwys asesiad o'r posibilrwydd ar gyfer pwerau fframwaith ym mhob Mesur yn yr wybodaeth a ddarperir i Bwyllgorau Pwnc cyn iddynt ystyried Mesurau. Fe gymeradwyodd yr awgrym fod Pwyllgorau yn gofyn i Weinidogion i gynyddu'r rhestr bresennol o is-deddfwriaethau sydd i ddod a ddarperir iddynt, trwy nodi os yw deddfwriaethau o'r fath i'w gwneud o dan Ddeddfau a graffwyd arnynt eisoes ar ffurf Mesurau, gan felly alluogi Pwyllgorau i graffu ar weithredu pwerau fframwaith.

1.4 Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

> Yr oedd esiamplau ar hyn o bryd o Fesurau'n dod ymlaen nad oedd ganddynt bwerau fframwaith ar gyfer y Cynulliad ond rhagwelwyd y byddai'r sefyllfa hon yn newid;
>
> Byddai ffyrdd Pwyllgorau o weithio o anghenraid yn newid er mwyn gwneud lle i'r llwyth gwaith deddfwriaethol mwy, ac fel y byddai gan y Cynulliad lai o reolaeth o'r rhaglen ddeddfwriaethol nag oedd gan Senedd yr Alban yr oedd y posibilrwydd i rai Pwyllgorau gael eu gorlwytho gyda gwaith deddfwriaethol o dan y strwythur Pwyllgorau presennol;
>
> Gallai defnyddio system flaenoriaethu fod yn rhan o'r cam tuag at graffu mwy

effeithiol o ddeddfwriaethau – fe nododd y Panel yr anawsterau presennol gydag adnabod y meysydd mwyaf pwysig o ddeddfwriaethau'r UE i graffu arnynt;

Yr oedd angen i Bwyllgorau fod yn rhagweithiol ac efallai y byddai angen iddynt roi mwy o bwysau ar Weinidogion i ddwyn ymlaen wybodaeth yn fuan am Fesurau sydd i ddod er mwyn hwyluso craffu amserol;

Yr oedd trafodaeth ar ddylai meini prawf gwrthrychol gael eu datblygu a'u defnyddio i asesu a yw'r Cynulliad wedi cael yr hyblygrwydd mwyaf posibl yn y ddarpariaeth fframwaith, a chytunwyd y byddai gwybodaeth gan ymchwilwyr a chyfreithwyr ar a ellid caniatáu pwerau ehangach yn darparu cyngor cyfreithiol a datganiadau ffeithiol, yn hytrach na chynnwys unrhyw farn wleidyddol ar ran y swyddogion.

1.5 Cytunodd y Panel ar y broses a amlinellwyd yn y papur, ac, fel y Pwyllgor Busnes, ei fod yn dymuno cael diweddariad bob 4 wythnos ar gynnydd y ddeddfwriaeth.

Gweithredu: Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau i roi diweddariadau bob 4 wythnos i'r Panel (h.y i bob cyfarfod o'r Panel) ar gynnydd deddfwriaethau.

## Eitem 2: Codi Proffil Pwyllgorau – Cyflwyniad gan Nick Powell, Golygydd Gwleidyddol ITV yng Nghymru

2.1 Cafodd y Panel gyflwyniad gan Nick Powell ar sut y gallai Pwyllgorau godi eu proffil yn y cyfryngau darlledu. Ymhlith y pwyntiau allweddol yr oedd:

Yn wahanol i San Steffan, ble mae amserlenni darlledu yn cael eu penderfynu yr wythnos gynt, mae camerâu yn recordio holl gyfarfodydd Pwyllgorau'r Cynulliad a hyd yn oed os nad oes darlledu ar y pryd bydd y deunydd weithiau'n cael ei ddefnyddio mewn rhaglenni diweddarach;

Mae staff ac adnoddau ITV yn y Cynulliad yn llai na'r BBC, ond serch hynny mae'n fuddsoddiad mawr;

Mae pynciau llosg a drama neu gyffro posibl yn ffactorau elfennol wrth benderfynu beth i'w ddarlledu, ond fe allai dangos gwaith Pwyllgorau e.e adolygiadau o bolisïau gynyddu pe byddai Cadeiryddion ac eraill yn rhagweithiol i dynnu sylw'r cyfryngau at bynciau o ddiddordeb posibl;

Mae cyfweliadau gydag Aelodau yn ymylol i gyfarfodydd yn cael eu ffafrio yn hytrach na dangos y trafodion gan y gallai hynny fod yn anodd i'r camerâu ddilyn y sgyrsiau rhwng Aelodau;

Gyda golwg ar gyfarfodydd y tu allan i'r safle, mae ymweliadau/ digwyddiadau pynciol wedi'u clymu gyda gwaith Pwyllgorau o ddiddordeb, ond mae cynllunio

ymlaen a rhybuddion yn bwysig, er bod lansio adroddiadau Pwyllgor y tu allan i Gaerdydd yn tueddu i gynhyrchu diddordeb y wasg ranbarthol leol yn hytrach na sylw gan y teledu ar lefel genedlaethol;

cydnabuwyd fod Pwyllgorau wedi cael sylw cymharol dda dros gyfnodau'r Cynulliad Cyntaf a'r Ail Gynulliad, er y sylweddolwyd, oherwydd yr ansicrwydd gwleidyddol presennol fod y cyfryngau'n canolbwyntio mwy ar waith y Siambr. Fodd bynnag, wrth ystyried storïau posibl yr oedd agendas a phapurau Pwyllgorau yn dal yn bwysig i newyddiadurwyr;

er nad oedd cyfarfod cyntaf y 'Pwyllgor Craffu ar y Prif Weinidog' wedi cael llawer o sylw gan y cyfryngau, o gofio ei broffil amlwg yr oedd y Pwyllgor yn berthnasol iawn ac o ddiddordeb i newyddiadurwyr;

bydd mwy o gamerâu yn y Senedd, gyda 10 pwynt i ddarlledu ohonynt. Fe fyddai'n anodd mesur sut y byddai darlledu yn y Senedd yn gweithio tan yr oedd yn weithredol.

2.2 Diolchodd y Llywydd i Nick Powell am ddod i'r cyfarfod.

## Eitemau Busnes Rheolaidd

## Eitem 3: Nodyn o'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd 4 Hydref 2005

3.1 Cytunodd y Panel gofnodion y cyfarfod diwethaf ar gyfer eu cyhoeddi, yn amodol ar gywiriad i'r datganiad am fuddiant ym mharagraff 9.1, gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a Chadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Gweithredu: yr Ysgrifenyddiaeth i anfon cofnodion 4 Hydref ar y Rhyngrwyd

## Eitem 4: Materion yn codi

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion blaenorol.

## Eitem 5: Eitemau'r Cadeirydd

5.1 Fe nododd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod aelodau o Bwyllgor Iechyd Senedd yr Alban yn dod i Gaerdydd ar Dachwedd 21-22 i gael tystiolaeth mewn cysylltiad â'u craffu ar Fesur i gael gwared â chodi tâl am bresgripsiwn.

## Eitemau I'w Nodi

## Eitem 6: Datblygiad Cynaliadwy

6.1 Cafodd y Panel ddiweddariad ar hynt gweithredu’r Cynllun Gweithredu Datblygiad Cynaliadwy Gwasanaethau Seneddol y Cynulliad.

6.2 Tynnodd Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad sylw’r Panel at y ffaith fod y canllawiau ar gyfer papurau Pwyllgor yn gofyn fod ystyriaeth i oblygiadau datblygiad cynaliadwy yn cael ei gynnwys, ac fod canllawiau GSC ar weithredu Cynllun Gweithredu Datblygiad Cynaliadwy yn nodi sut y gallai Pwyllgorau fesur cynnydd ar ddatblygu cynaliadwy trwy graffu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn erbyn y cynllun gweithredu hwnnw.

**Eitem 7: Pwyllgorau yn yr adeilad newydd**

7.1 Fe nododd y Panel y papur a gofyn fod Aelodau’r Panel yn cael cyfle i ymgyfarwyddo â’r ystafelloedd Pwyllgora newydd cyn y cyfarfodydd Pwyllgor cyntaf.

7.2 Pwysleisiodd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bwysigrwydd y cyfleusterau fideo-gynadledda i gael eu defnyddio gymaint ag y bo modd er mwyn hwyluso mwy o gymryd rhan yn nhrafodion Pwyllgorau, er enghraifft, rhoi’r cyfle i dystion bregus i roi tystiolaeth mewn amgylchedd cartrefol iddynt, ac i helpu i dderbyn tystiolaeth gan bobl oedd wedi’u lleoli yn bell o Gaerdydd.

Gweithredu: Gwasanaeth y Pwyllgorau i drefnu i’r Panel ymweld â’r ystafelloedd Pwyllgora newydd cyn y cyfarfodydd cyntaf.

**Eitemau ar gyfer eu trafod**

**Eitem 8: Strwythur Pwyllgorau yn 2007**

8.1 Diolchodd y Cadeirydd i swyddogion am baratoi’r papur trafod gerbron y Panel ar opsiynau ar gyfer strwythur Pwyllgorau o 2007 ymlaen a’r llwyth gwaith oedd yn deillio o hynny i Aelodau.

8.2 Cyflwynodd y Cadeirydd y papur gan dynnu sylw at y canlynol:

> y tri gwahanol fath o Bwyllgor: Pwyllgorau Dethol neu Bwyllgorau Pwnc; Pwyllgorau Mesur a Phwyllgorau Sefydlog e.e Archwilio; rôl bosibl ar gyfer y Pwyllgor Archwilio arfaethedig allai fod i ddiogelu safonau gyda golwg ar wariant, cydraddoldeb ac ymddygiad, gan felly gwmpasu roliau’r Pwyllgorau Cyfle Cyfartal a Safonau presennol;
>
> unwaith bod Gweinidogion, Dirprwy Weinidogion ( a fyddai’n cael eu hystyried yn Weinidogion y Goron), Llywyddion ac o bosibl Arweinyddion Pleidiau a Rheolwyr Busnes yn cael eu heithrio, dim ond oddeutu hanner yr Aelodau a fyddai ar gael i fod yn Aelodau o Bwyllgorau, ac efallai fod rhai o’r rhain yn dewis peidio ymwneud mewn gwaith Pwyllgorau;

yr oedd y papur yn rhagweld un Pwyllgor yn gwasanaethu'r DU (heb fod wedi'i datganoli), Deddfwriaethau'r UE ac is-deddfwriaethau. Efallai y bydd angen Pwyllgor tebyg i bwyllgor 'Cryfderau Offerynnau Statudol' yn San Steffan, ond yr oedd hwn yn fater i'w drafod;

os caiff model San Steffan ei fabwysiadu (opsiwn 1 yn y papur) efallai y byddai rhywfaint o orgyffwrdd rhwng aelodaeth y Pwyllgorau Dethol a'r Pwyllgorau Mesur yn ddymunol.

8.3 Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

mynegodd rhai Aelodau'r Panel farn, wrth bod y papur yn helpu i grisialu rhai o'r materion sydd i'w hystyried dros y misoedd nesaf. Yr oedd yn rhy gynnar i ystyried strwythur posibl y Pwyllgor cyn cyhoeddi'r Mesur, a byddai'r Rheolau Sefydlog yn fater i'r Trydydd Cynulliad. Teimlai rhai eraill na ddylai'r materion gael eu gadael hyd nes ar ôl etholiadau 2007;

Ni ddylai Rheolau Sefydlog gael eu gosod yn rhy llym ond yr oedd yn bwysig edrych ar yr egwyddorion oedd tu ôl iddynt;

Mynegodd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol bryder fod y papur yn awgrymu dim ond un Pwyllgor dros y Deyrnas Unedig yn gyfan (heb ei datganoli), deddfwriaethau'r UE ac is-ddeddfwriaethau, gan dynnu sylw at y ffaith fod gan Dy'r Arglwyddi 7 o bwyllgorau dim ond ar gyfer deddfwriaeth y DU;

nododd Cadeirydd y pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod yn ffafrio Opsiwn 1 (model San Steffan) gan ei fod yn bryderus fod opsiwn 2 (model yr Alban) yn arwain at fod rhai Pwyllgorau Pwnc yn dod yn Bwyllgorau Deddfwriaeth gydag ychydig iawn neu ddim amser ar gyfer gwaith pwysig arall fel y nodwyd oedd yr achos gyda rhai Pwyllgorau e.e. y Pwyllgor Iechyd yn yr Alban;

mynegwyd pryderon fod Pwyllgorau Dethol sy'n trin portffolio ehangach, fel y cynigir yn opsiwn 2, yn rhoi llai o sylw i rai pynciau, er enghraifft materion diwylliannol oedd yn bwysig i Gymru ond oedd yn derbyn cyfran lai o'r gyllideb. Yr oedd angen codi'r mater a oedd angen cadw'r cysylltiad presennol rhwng cyfrifoldebau'r portffolio a chyfrifoldebau Pwyllgorau Pwnc;

fod angen am drafodaeth ehangach nid yn unig am y modelau ar gyfer strwythur Pwyllgorau, ond am y modd hanfodol y byddai'r Cynulliad yn gweithio yn y dyfodol i ddelio'n effeithiol gyda'r agenda deddfwriaethol;

yr oedd y Panel am roi ystyriaeth fanwl bellach i'r opsiynau a gynigiwyd yn y papur a'r rhagdybiaethau sylfaenol a'r egwyddorion oedd yn greiddiol iddynt.

Gweithredu: Byddai'r Panel yn dychwelyd at y drafodaeth yn y cyfarfod nesaf gyda swyddogion

Gwasanaeth Ymchwil a Phwyllgorau'r Aelodau er mwyn cyflwyno mewn mwy o fanylder yr ystod o opsiynau posibl a rhagdybiaethau sy'n sylfaenol iddynt.

## Eitem 9: Cyfrifiad 2011

9.1 Fe nododd y Panel bapur ar gynlluniau ar gyfer Cyfrifiad 2011. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus unwaith eto y sesiwn ddefnyddiol yr oedd ei Phwyllgor wedi'i gael gydag ystadegwyr o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Rhoddodd esiampl o gwestiwn arfaethedig ar 'faint o blant oedd mewn teulu ble mae'r rhieni'n briod', nad oedd yn adlewyrchu natur unedau teuluol modern ac fe allai olygu nad oedd plant a theuluoedd yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yng nghanlyniadau'r cyfrifiad. Cytunodd y Panel i gyfarfod gyda swyddogion ONS wedyn gallai Pwyllgorau unigol ddilyn hynny gyda chyfarfodydd pellach fel bo angen.

Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i wahodd swyddogion yr ONS i gyfarfod o'r Panel yn y dyfodol.

## Eitem 10: Diweddariad ar Weithio ar y Cyd gyda'r Pwyllgor Materion Cymreig

10.1 Byddai swyddogion Gwasanaeth Ymchwil a Phwyllgorau'r Aelodau yn parhau i gyd-gysylltu gyda chydweithwyr yn y Pwyllgor Materion Cymreig er mwyn diweddaru'r panel ar bynciau posibl y gellid gweithio arnynt ar y cyd.

## Eitem 11: Unrhyw fater arall

11.1 Fe nododd y Panel y papur ar Ddangosyddion GSC ar gyfer mis Awst.

11.2 Nid oedd unrhyw fater arall.

**Gwasanaethau Pwyllgor ac Ymchwil yr Aelodau**
**Tachwedd 2005**